# Cenn@d

GORFFENNAF 30 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 231

## Cynnal y dystiolaeth Gristnogol yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd




Eleni, Sir Gaernarfon oedd y sir nawdd yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, ac ers sawl blwyddyn bu llawer o godi arian ac ennyn brwdfrydedd o fewn y sir. Cynhaliwyd y sioe yn ôl yr arfer rhwng 21 a 24 Gorffennaf – wythnos gyntaf y gwyliau ysgol. Y Llywyddion eleni oedd John Owen a'i briod, Marian, o Rowen. Bob blwyddyn mae'r sioe yn 'cychwyn' yn nhref Llanfair-ym-Muallt – un ai yn yr eglwys neu'r capel yno. Dewis y Llywydd eleni oedd Capel Alffa, un o gapeli Eglwys Bresbyteraidd Cymru sydd mewn gofalaeth eciwmenaidd. Y ddau gaplan ar gyfer y Llywydd eleni oedd Aled Davies, yn cynrychioli ochr orllewinol y sir, ac Owain Davies yn cynrychioli'r ochr ddwyreiniol. Roeddent eisoes wedi cyflwyno oedfa'r sioe ar Radio Cymru y bore hwnnw, a chafwyd gwasanaeth yn y capel hefyd ar yr un thema, gan ddilyn hanes Noa'r ferch a'i pedair chwaer, sef merched Seloffehad, a'u brwydr i sicrhau eu bod yn cael cadw eu tir; gallwch ddarllen yr hanes yn Llyfr Numeri, penodau 26 a 27. Yn dilyn y gwasanaeth bu'n rhaid rhuthro i'r sied cneifio defaid ar gyfer Moliant y Maes, ac yno roedd dros fil o bobl wedi dod ynghyd i ganu detholiad o emynau, ac i glywed Côr y Sir yn canu 'Dal dy Dir', sydd hefyd yn enw ar elusen iechyd meddwl i gefnogi ffermwyr o fewn y sir.

Bore Llun, o 7 o'r gloch ymlaen, roedd y tîm caplaniaid yn crwydro'r maes, gan fod ar gael, yn glust gwrandawgar i bwy bynnag oedd am gael sgwrs. Yn yr un modd agorodd pabell tystiolaeth Cytûn, gan gynnig paned a theisen gri, danteithion i'r plant a chyfle am sgwrs o gwmpas y bwrdd. Roedd ardal helaeth ar gyfer gweithgaredd y plant, a braf cofnodi bod dros 200 o blant wedi ymweld, gan gwblhau project celf. Roedd amrywiaeth o stondinau yno, gan gynnwys am y tro cyntaf elusen Banc Bwyd Trussell Trust – diolch i Alun Griffiths am ddod atom.

Roedd Cymorth Cristnogol yno hefyd, a chafwyd dau wasanaeth ganddynt. Ar y dydd Mercher cafwyd gwasanaeth gan Mari McNeill, gydag Aled a Delyth Davies a Kathryn Stowers o Fyddin yr Iachawdwriaeth yn cynorthwyo. Fel rhan o'r gwasanaeth hwnnw cafodd pawb gyfle i sefyll mewn undod dros heddwch, gan ddal baner goch y tu allan i'r babell. Yna, ddydd Iau, cafwyd gwasanaeth o dan arweiniad Cynan Llwyd, yn cofnodi a dathlu 80 mlynedd o waith Cymorth Cristnogol, gydag Aled a Delyth eto'n cynorthwyo, ochr yn ochr â Tim Williams, cydlynydd y tîm caplaniaid. Cawsom hefyd y pleser o groesawu band Byddin yr Iachawdwriaeth atom ddydd Llun i'n harwain yn ein defosiwn.

Yn ystod yr wythnos rhannwyd dros 1,000 o baneidiau a llawer iawn o sgyrsiau difyr o gwmpas y byrddau. Bellach paciwyd cynnwys y babell i'r trelar, sydd ar gychwyn am faes yr Eisteddfod yn Wrecsam. Gobeithio y cawn gyfle i groesawu rhai o ddarllenwyr *Cenn@d* i mewn atom yno.

*Aled Davies*

Camu Allan efo'r 'Cam Nesaf'
**Tudalen 2**

Cofio'r Parchedig Huw John Hughes
**Tudalen 3**

Cofio David Enoch
**Tudalen 7**